Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad a gynhaliwyd ar Nos Fawrth, 10fed Tachawedd, 2026 yng Nghanolfan Ysgol Cribyn am 7.30pm.

PRESENNOL

Cynghorwyr : Cyng. Lynford Thomas (Cadeirydd), Dan Evans, Euros Davies, Alan Henson, Glyn Davies, Gerwyn Owen, Haf Hughes

1. **YMDDIHEURIADAU:** Wendy Lloyd Lewis, Melinda Williams, Hywel Ifans
2. **PERSONOL** Dymunwyd gwellhad buan I'r Cyng. Wendy Lloyd Lewis sydd wedi cael llawdriniaeth ac wedi derbyn penglin newydd yn ddiweddar.
3. **DATGELU BUDDION PERSONOL**
   a. Cynllunio A360606 Vola, Arla Foods. Y Cyng. Alan Henson
4. **CADARNHAU COFNODION 13/10/25**
   Cynigiwyd bod y cofnodion yn gywir gan y Cyng. Glyn Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Alan Henson a'u derbyn yn unfrydol.
5. **MATERION YN CODI**
   a. **10. Newid Ffiniau**. Cyfeirnod yr ymholiad: 920957**. Derbyniwyd ymateb gan Lowri Edwards yn cadarnhau bod** llythyr wedi ei ddanfon at Sian Gwenllian ond nid yw'r Cyngor Sir wedi derbyn ymateb. Yn y cyfamser mae'n ein hannog i barhau i wneud y trefniadau perthnasol ar gyfer y newidiadau gan bod y Ddeddfwriaeth dal mewn lle.
   b. **15a.Di-Wifr.** Derbyniwyd neges gan y Cyng. Hywel Ifans i gadarnhau bod y llinellau di-wifr yn neuaddau pentref Felintach a Dihewyd wedi'u harchebu. Mae angen i 'Openreach' wneud gwaith archwilio cyn symud ymlaen.
6. **ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR.** Yn absenoldeb y Cyng, Ceris Jones, ni dderbyniwyd adroddiad
7. **ADRODDIAD YR HEDDLU** Derbyniwyd adroddiad gan PC Liz Jenkins yn nodi nifer o faterion amrywiol.
8. **CYLLID**
   a. Tâl y Clerc Hydef £240.14
   b. **Lloyds Banc : Ffioedd Cyfrif Cyfredol** 10/09/26 – 09/010/2026 £4.25
   c. **Lloyds Banc :** 10/09/26 – 09/010/2026 **Ffioedd Cyfri'r Cadeirydd:** £4.25
   d. **ICO –** Taliad Blynyddol £52.00
   e. **BccIT £72.00.**yn cynnwys TAW am adnewyddu'r Endpoint Protection
   f. **RBL -** £40.00 am dorchau Sul y Cofio

g. **Elfed Jenkins £337.**49 am adnewyddu trwydded y wefan a gwaith cynnal a chadw'r wefan
h. Derbyniwyd **y drydedd taliad Praesep**t ar Hydref 31 £3316.66

9. CYNLLUNIO

i. A260617 Ymgeisydd: Wendy Bullar Rhydyfyn Cottage, Cribyn, Ceredigion, Lampeter, SA48 7NH Y Bwriad: Codi polytunnel 6 x 3m polytunnel ar gyfer tyfu ffrwythau a llysiau. Yn dilyn trafodaeth, **penderfynwyd** derbyn y cais.
ii. A260606 Ymgeisydd: Mr Richard Harris Arla Foods Ingredients Lleoliad Safle: VOLAC INTERNATIONAL LTD, Felinfach, Lampeter, Ceredigion, SA48 8AG Y Bwriad: Codi adeilad cynhyrchu a phont mynediad newydd. Yn dilyn trafodaeth, **penderfynwyd** derbyn y cais.

10. CYFARFOD ADOLYGIAD FFINIAU UN LLAIS CYMRU 4/11/26

Bu'r Cadeirydd a'r Clerc mewn cyfarfod ar-lein i gael mwy o wybodaeth am y rhwymedigaethau ar gyfer cynghorau sy'n wynebu newidiadau i'w ffiniau. Y peth pwysicaf i ysytyried yw y bydd unrhyw rwymedigaethau sydd gan y cyngor sy'n ymuno yn cael eu trosglwyddo i'r cyngor newydd.

11. GOHEBIAETH

i. Cais gan Gwasanaeth Tân ac Achub i bobol i gymryd rhan mewn arolwg i helpu siapio'r gwasanaeth I'r dyfodol. Y manylion gan y Clerc.

12. UNRHYW FATER ARALL

i. Mae polyn a golau SL38 323 ger Llys y Nant a Brynteg wedi eu tynnu ers gwaith adnewyddu'r ysgol. Penderfynwyd cysylltu â'r Cyngor Sir.

ii. Mae twll mawr yn yr hewl wrth Felin Hafodwen. Penderfynwyd cysylltu â'r Cyngor Sir.

iii. Gwnaed cais gan y Cyng. Alan Henson i gysylltu â'r Sir I ofyn am gael glirio'r ffosydd yn yr ardal. Penderfynwyd y byddai'r Clerc yn cysylltu â'r Sir I wneud y cais.

13. DYDDIAD A LLEOLIAD Y CYFARFOD NESAF

Rhagfyr 8fed, Neuadd Dihewyd